# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PANEL DETHOL Y PWYLLGOR SAFONAU** | | **STANDARDS COMMITTEE SELECTION PANEL** |
| **DYDD GWENER, 17 TACHWEDD, 2017 am 2.00 o'r gloch** | | **FRIDAY, 17 NOVEMBER, 2017 at 2.00 pm** |
| **YSTAFELL BWYLLOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs Shirley Cooke 01248 752514** | **Committee Officer** |

**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir/Representing the County Council**

Y Cynghorydd/Councillor Gwilym O Jones
Y Cynghorydd/Councillor Robert Llewelyn Jones
Y Cynghorydd/Councillor R Meirion Jones

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned/Representing the Town/Community Councils**

Mr Gordon Warren

**Aelodau Annibynnol/Independent Members**

Dr Haydn Edwards

# A G E N D A

1 **ETHOL CADEIRYDD**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

3 **COFNODION Y CYFARFOD** (Tudalennau 1 - 2)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Panel a gynhaliwyd ar 20 Medi, 2017.

4 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 3 - 4)

Ystyried mabwysiadu'r isod :-

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei ddatgelu fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

5 **TYNNU RHESTR FER O YMGEISWYR AR GYFER RÔL AELOD ANNIBYNNOL AR Y PWYLLGOR SAFONAU A PHENDERFYNU AR Y BROSES** (Tudalennau 5 - 82)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

# PANEL DETHOL Y PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2017

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | **Yn cynrychioli'r Cyngor Sir**<br><br>Y Cynghorwyr G.O. Jones, Robert Ll. Jones.<br><br>**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned**<br><br>Mr. Gordon Warren.<br><br>**Aelod Annibynnol**<br><br>Dr. Hayden Edwards. |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd R. Meirion Jones. |

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2 CAIS I FOD YN AELOD O'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro mewn perthynas â'r uchod.

Eglurodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro y broses ddethol statudol ar gyfer penodi i'r sedd wag ar y Pwyllgor Safonau. Roedd drafft o hysbyseb ynghlwm wrth yr adroddiad yn Atodiad 1 ac roedd pecyn yn cynnwys gwybodaeth am y Côd Ymddygiad, Rhestr Lwfansau a'r ffurflen gais ar gael yn Atodiad 2 yr adroddiad.

Gwnaed y newidiadau isod i eiriad yr hysbyseb gan y Panel :-

- y bydd Aelod Annibynnol yn cael ei benodi am gyfnod a fydd o leiaf 4 blynedd a hyd at 8 mlynedd;
- bod cyfeiriad e-bost ac enw cyswllt yn cael eu cynnwys yn y pecyn dogfennau;
- bod enw'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn cael ei gynnwys yn y fersiwn Saesneg ar dudalen 6 y dogfennau.

Rhoes y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fanylion ynghylch costau hysbysebu'r swydd wag yn y papurau newydd lleol. Penderfynodd y Panel, er mwyn osgoi costau ychwanegol, i roi hysbyseb fer am y swydd wag yn y papurau newydd lleol gyda dolen i wefan y Cyngor am y fersiwn lawn.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cymeradwyo'r hysbyseb ar gyfer swydd wag Aelod Annibynnol ar y Pwyllgor Safonau, yn amodol ar y newidiadau a nodir uchod;**

- **Rhoi'r hysbyseb ar wefan y Cyngor, y dudalen Facebook a Twitter,  ynghyd ag hysbyseb fer yn unig (yn y lle cyntaf) yn y ddau bapur newydd lleol;**
- **Cymeradwyo'r cais a'r cyngor yn Atodiad 2;**
- **Cynnal y cyfarfod nesaf i dynnu rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer eu cyfweld ar 17 Tachwedd, 2017 am 2.00 p.m., yn Ystafell Bwyllgor 1.**

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

**Penodi Aelod Annibynnol i Swydd Wag Achlysurol /**
**Appointment of an Independent Member to a Casual Vacancy**

| **Paragraff 12 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972**<br>Paragraph 12 Schedule 12A Local Government Act 1972 | |
|---|---|
| Y PRAWF – THE TEST | |
| **Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd** / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>• **Mae angen tryloywder wrth benodi aelod cyfetholedig i'r Pwyllgor Safonau oherwydd y rôl arwyddocaol sydd gan y Pwyllgor mewn perthynas â llywodraethiant ac ymddygiad cynghorwyr sir etholedig a chynghorwyr y cynghorau tref a chymuned**.<br><br>• There is a requirement for transparency in the appointment of a co-opted member to the Standards Committee, given the significant role played by the Committee in relation to governance and conduct of elected county councillors and town and community councillors. | **Y budd i'r cyhoedd with beidio datgelu yw** / The public interest in not disclosing is:-<br><br>• **Mae disgwyliad rhesymol gan ymgeiswyr y bydd eu ffurflenni cais a'u hasesiadau'n cael eu trin yn gyfrinachol ac y bydd eu cyfweliadau'n cael eu cynnal yn breifat. Mae'n bosib y gellid cymryd camau am beidio â chwrdd â'r fath ddisgwyliad rhesymol i barchu cyfrinachedd**.<br><br>• **Mae'n rhesymol disgwyl y gallai cyhoeddi ffurflenni cais a chynnal proses ddethol sy'n hollol gyhoeddus, olygu y byddai llai o ymgeiswyr, os o gwbl, yn ymgeisio am swyddi yn y dyfodol**.<br><br>• **Mae'r Panel wedi cael ei benodi i ymgymryd â rôl sicrwydd ar ran y Cyngor a'r cyhoedd ac, ar ôl dilyn y broses briodol, bydd yn gwneud ei argymhelliad i'r Cyngor llawn a fydd yn cymeradwyo'r penodiad terfynol**.<br><br>• **Bydd manylion am y penodiad terfynol yn cael eu cyhoeddi**.<br><br>• **Mae llawer o'r broses eisoes yn y parth cyhoeddus ac mae'n debyg y byddai gwybodaeth fanylach am y broses yn cael ei chyhoeddi petai cais dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn dod i law**. |

| | |
|---|---|
| | • There is a reasonable expectation of confidentiality by the applicants that their application forms, assessments and interviews will be conducted in private. A breach of such a reasonable expectation of confidence is potentially actionable.<br><br>• Publication of applications, and a wholly public selection process, might reasonably be expected to result in fewer, or no, candidates applying for future vacancies.<br><br>• The Panel has been appointed to undertake the assurance role on behalf of the Council and the public and, following due process, will make its recommendation to full Council which will ratify the final appointment.<br><br>• The final appointment will be made public.<br><br>• Much of the process is already in the public domain and more detailed information about the process would likely be published in the event of a Freedom of Information Act 2000 request. |
| **Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.<br>**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. | |

Document is Restricted

This page is intentionally left blank